# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 6 Mai 2014** |
| Amser: | **08.30 - 08.59** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: Preifat

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Lesley Griffiths**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Gynghorydd y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**<br>**Lara Date, Clerc Gweithdrefnau** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Rhoddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am newidiadau i fusnes y Llywodraeth.

Ddydd Mawrth, ni fydd Cyfnod Pleidleisio. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 4 Mehefin 2014**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch yr Ymchwiliad i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE (60 munud)

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Dadl Fer - Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

3.4 Dadl Aelod Unigol: Dewis y Cynnig ar gyfer y Ddadl

Dewisodd y Pwyllgor Busnes y cynnig a ganlyn ar gyfer dadl:

**Dydd Mercher 14 Mai 2014**

**NNDM5502**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
**Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**
**Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnig yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd i wahardd y defnydd o sigaréts electronig mewn mannau cyhoeddus caeedig a gweithleoedd yng Nghymru.

2. Yn nodi bod 2.1 miliwn o oedolion yn y DU, yn ôl amcangyfrif, yn defnyddio sigaréts electronig ar hyn o bryd.

3. Yn nodi bod canllawiau iechyd y cyhoedd oddi wrth y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, 'Tobacco: harm-reduction approaches to smoking', yn cefnogi'r defnydd o gynnyrch trwyddedig sy'n cynnwys nicotin i helpu pobl i ysmygu llai neu i roi'r gorau i ysmygu.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r dystiolaeth sy'n sail i'r cynigion ar sigaréts electronig, er mwyn darparu eglurder ar gyfer cyfiawnhau'r cynigion hyn ym Mil Iechyd y Cyhoedd.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r ddadl nesaf gan Aelod unigol gael ei chynnal ddydd Mercher 9 Gorffennaf 2014.

## 4 Deddfwriaeth

4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cymru

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Cymru.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gadarnhau'r penderfyniad mewn egwyddor a wnaed ar 1 Ebrill i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Cyllid at ddibenion craffu. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad ar y memorandwm erbyn 26 Mehefin 2014, fel y gellir cynnal dadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Gorffennaf 2014.

4.2 Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru

Nododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth yn amlinellu ei phrif weithgarwch deddfwriaethol dros y misoedd nesaf.

Dywedodd y Rheolwyr Busnes y byddent am weld unrhyw newidiadau i gynlluniau a nodwyd eisoes yn cael eu hamlinellu mewn diweddariadau yn y dyfodol.

Dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth y byddai diweddariad ar y Bil Mynediad yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod yr wythnos nesaf.

## 5 Rheolau Sefydlog

5.1 Adolygu Rheolau Sefydlog y Cynulliad

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth, gofynnodd y Rheolwyr Busnes am bapur yn amlinellu dull arfaethedig o adolygu'r Rheolau Sefydlog yn ystod gweddill y Cynulliad hwn. Roedd y papur yn cynnwys gwybodaeth am adolygiadau sydd eisoes yn cael eu cynnal ac adolygiadau eraill sydd ar y gweill, yn ogystal ag awgrymiadau ynghylch agweddau eraill ar y Rheolau Sefydlog y gallai'r Rheolwyr Busnes fod am eu hystyried dros y ddwy flynedd nesaf.

Nododd y Rheolwyr Busnes yr adolygiadau o'r Rheolau Sefydlog sydd eisoes yn cael eu cynnal a'r adolygiadau dilynol sydd ar y gweill ac a gytunwyd arnynt eisoes.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ystyried cyflwyno'r Rheolau Sefydlog newydd a amlinellwyd yn y papur a'r adolygiadau arfaethedig eraill.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes nad oeddent am adolygu agweddau eraill ar y Rheolau Sefydlog ar hyn o bryd.

Yn ogystal, cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y dull arfaethedig o weithredu'r broses o adolygu'r Rheolau Sefydlog.

## 6 Pwyllgorau

6.1 Gweithdrefnau ar gyfer ethol Cadeiryddion pwyllgorau

Yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth, gofynnodd y Rheolwyr Busnes am bapur ar brosesau amgen posibl ar gyfer ethol Cadeiryddion pwyllgorau.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i fynd â'r cynigion yn ôl i'w grwpiau er mwyn cynnal trafodaeth arnynt, ac i ddychwelyd at y mater ar ôl toriad y Sulgwyn.